

POLISI AR LESIANT

TAKING
FLIGHT

CMWNI THEATR TAKING FLIGHT

Polisi Theatr Taking Flight ar Lesiant

Ein **cenhadaeth** yw chwalu'r rhwystrau sy'n cadw pobl rhag cymryd rhan ym myd y theatr, gan frwydro'n ddibaid i ehangu'r cyfleoedd iddynt fod yn greadigol. Rydym am hyrwyddo cynrychiolaeth gyfartal i bobl Fyddar ac anabl yn y theatr trwy lefelu'r llwyfan. Rydym am weddnewid tirwedd y celfyddydau yng Nghymru a'r tu draw trwy herio eraill i feddwl yn fwy cynhwysol.

Ein **gweledigaeth** yw byd lle mae'r storïau a adroddir a'r lleisiau a glywir yn gwir adlewyrchu'r byd lle rydym yn byw; lle mae'r theatr yr ydym yn ei greu yn deall cynulleidfaoedd o bob lliw a llun ac yn eu gwahodd i mewn; lle mae'r cae chwarae'n wastad ac mae mynediad yn gyfartal rwydd i bawb.

Diben y Polisi

Term ambrelo hollgynhwysol yw'r gair Llesiant. Fe'i defnyddir i gwmpasu sawl math gwahanol o lesiant; corfforol, meddyliol, emosiynol, ysbrydol. Mae'r syniad o lesiant yr unigolyn yn beth y mae'r unigolyn ei hun yn gyfrifol am ei gydnabod a'i reoli. **S e r c h h y n n y**, mae yna fesurau penodol y gall sefydliadau eu cymryd er mwyn hybu llesiant cadarnhaol ymhlith eu gweithlu. Trwy gydnabod bod yna weithgareddau 'wedi'u presgripsiynu' penodol a all fod yn fuddiol i lesiant, rydym yn datgan nad oes un senario sy'n addas i bawb, a nod y polisi hwn yw eglurhau'r hyn y gall Taking Flight ei wneud i hyrwyddo Llesiant unigol sy'n briodol, yn deg i bawb ac yn hygyrch.

Cwmpas y polisi

- Gyda golwg ar gyflawni amcanion Taking Flight, bydd y polisi hwn yn cwmpasu:
- Staff ar gyflog
- Gweithwyr llawrydd a chontractwyr
- Gwirfoddolwyr gan gynnwys y corff Llywodraethol

Lle bo'n bosibl fe fydd Taking Flight yn gweithredu'r polisi hwn ar draws ei holl brosiectau a gweithgareddau, gan argymhell bod y sefydliadau eraill yr ydym yn gweithio gyda hwy yn ei weithredu hefyd.

Datganiad Polisi

Mae Llesiant yr Unigolyn, a'r modd y caiff ei drafod, yn rhywbeth i'w asesu gan yr unigolyn ei hun bob amser, rhywbeth sy'n anodd i'w safoni. Mae Taking Flight yn credu y gellir hyrwyddo Llesiant cadarnhaol trwy greu awyrgylch diogel, agored a

chynhyrchiol lle mae sgysiau "sut ydych chi?" yn ddiffuant, yn amserol ac yn briodol. Awyrgylch lle nad yw gwydnwch ond yn strategaeth dros gynyddu'r llwyth gwaith neu chapasiti, a lle rhoddir i unigolion yr amser, y lle, yr offer a'r cymorth i'w galluogi i ofalu am eu llesiant eu hunain. Mae Taking Flight yn credu y dylai'r polisi hwn fod yn berthnasol i aelodau staff, gweithwyr llawrydd, contractwyr a gwirfoddolwyr.

Bydd Taking Flight yn hybu llesiant cadarnhaol trwy:

| | |
|--|--|
| <p>Oriau gwaith hyblyg</p> <p>Er na all rhai elfennau o'n gwaith ni fod yn hyblyg (perfformiadau, sesiynau gweithdy ayyb) yn nhermau cwrmpas ein gwaith a chyfrifoldeb dros brosiectau, credwn nad oes rhwystr i'n cadw ni rhag cynnig hyblygrwydd lle bynnag y bo modd, cyhyd â bod cyfathrebu'n digwydd.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gall hyn gynnwys gweithio gartref • Amserau dechrau gweithio hyblyg • Gwaith sy'n cydgordio â gofal plant ac ymrwymadau gofal eraill • Cyflyrau iechyd ansefydlog ac apwyntiadau gofal iechyd afreolaidd • Lle bo'n briodol, gellir cynnwys hyn mewn contractiau a llythyrau cytundeb • Gellir cynnwys hyblygrwydd yn nodweddion unrhyw swydd o ddechrau'r contract, neu i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau • Mae'n allweddol bwysig i gyflogwyr a chyflogedigion fynegi eu hanghenion er mwyn sicrhau arferion gweithio hyblyg llwyddiannus sy'n bodloni'r ddau barti. Trafodwch hyn gyda'ch rheolwr llinell ar ddechrau cyfnod eich contract neu yn ystod y cyfweiliad hyd yn oed • Siaradwch â'ch rheolwr llinell wrth i amylchiadau newid • Anogir aelodau staff cyflogedig i weithio eu horiau'n hyblyg i ddarparu ar gyfer gofal plant, amgylchiadau amrywiol ayyb. Mae contractiau 'oriau blynyddol' yn bodoli i hyrwyddo hyn • Gall staff prosiectau weithio ar sail 'cyflawni'r prosiect' fel terfyn, neu ar gyfradd fesul awr/ diwrnod/wythnos, yn ôl gofynion y prosiect ac yn unol â chyflogau ac amodau'r ITC |
|--|--|

| | |
|-----------------------|--|
| | <ul style="list-style-type: none">• Gall cynnwys atodiadau ynghylch hygrychedd fel rhan o'r broses gontractiol bwysleisio a sicrhau hyblygrwydd o'r cychwyn cyntaf• Gellir trafod llinellau amser a therfynau amser ar ddechrau'r prosiect. |
| Darpariaeth gorfforol | <ul style="list-style-type: none">• Lle bo'n bosibl, darparu ardal ddynodedig ar wahân i'r man gweithio lle gellir cymryd saib, ail-ymgynnull a phwyso a mesur y sefyllfa• Lle bo'n ymarferol bosibl, addasu'r man gweithio i ddarparu ar gyfer anghenion corfforol y gweithlu• Gall atodiadau ynghylch hygrychedd a chontractiau sicrhau y bydd unrhyw ddarpariaethau corfforol yn cael eu cwblhau'n brydlon, a gellir ymgorffori adolygiad rheolaidd o |

| | |
|--------------------------------------|--|
| | <p>fannau gweithio ac anghenion ym mhob amserlen a ffrâm amser</p> |
| <p>Seibiau a chyfnodau o orffwys</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Taking Flight yn sicrhau bod seibiau a chyfnodau o orffwys yn cael eu cymryd a'u hyrwyddo • Dylid darparu lluniaeth os oes tebygrwydd yr ymyrrir â seibiau a drefnwyd ymlaen llaw • Bydd TF yn sicrhau bod seibiau'n cael eu trefnu yn ystod teithiau os yw'n briodol • Gellir trefnu wrth lunio atodiadau ynghylch hygyrchedd a chontractiau fod cyfnodau o orffwys yn cael eu cynnwys mewn unrhyw amserlen neu ffrâm amser |
| <p>Ysbryd Cyd-dynnu</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Estyn croeso i bob gweithiwr/wraig (I)lawrydd a chontractiwr/wraig sy'n ymuno â thîm Taking Flight • Cynnig cefnogaeth, hyblygrwydd, cyfleoedd i drafod a chyfathrebiad rheolaidd • Terfynau amser 'meddal' ac absenoldeb di-dâl (lle bo'n bosibl ac yn ymarferol) • Cymorth cwnsela priodol gan gynnwys cwnsela try BSL os yw'n gymwys • Hyfforddiant |

| | |
|---------------|--|
| Amgylchfyd | <ul style="list-style-type: none">• Nod TF yw darparu amgylchfyd hygyrch a chynhyrchiol, lle rhoddir pwyslais nid ar yr hyn na ellir, eithr ar yr hyn y gellir ei gyflawni• Cynnwys y staff yn y broses o greu'r man gweithio, a bod yn gyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd• Gwrando ar syniadau newydd• Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd am gefnogaeth, gan gynnwys polisïau'r cwmni, ac asiantaethau allanol y gellir mynd atynt heb ragfarn |
| Llwyth gwaith | <ul style="list-style-type: none">• Fe ymdrecha Taking Flight i sicrhau nad yw galluedd yr unigolyn yn cael ei ordrethu, ac i feithrin diwylliant lle nad os rhaid i aelodau staff a gweithwyr llawrydd brofi eu gwerth trwy ymgymryd â gormod o waith |

| | |
|---------------------------|---|
| Swyddogion Cymorth Cyntaf | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd TF yn sicrhau bod Swyddogion Cymorth Cyntaf corff a meddwl yn y gweithle, a bydd yn hyfforddi aelodau staff a gweithwyr llawrydd yn ôl yr angen • Bydd aelodau staff craidd newydd yn cael cyfle i hyfforddi, a chynigir yr un cyfle i unrhyw weithwyr creadigol ac aelodau staff ar brosiectau i sicrhau bod y ddarpariaeth yma ar gael |
| Mynegbostio | <ul style="list-style-type: none"> • Sicrheir bod sawl ffordd ar gael i gyfleu gwybodaeth am gefnogaeth o fewn y gweithlu gan gynnwys gwybodaeth mewn pecyn croeso, arwyddion, poster, gwahoddiadau i grwpiau cefnogaeth, seminarau, sesiynau dal-i-fyny rheolaidd ayyb • Derbynia TF gyfarwyddyd gan gyflogedigion a rhai sydd wedi byw trwy brofiadau perthnasol, a hynny mewn fformatiau hygyrch |
| Eglurder a chyfathrebu | <ul style="list-style-type: none"> • Sicrheir eglurder a bwriad diamwys yn ein holl gyfathrebu, gan gynnwys mewn contractiau a llythyrau cytundeb • Sicrheir ein bod yn amlinellu disgwyliadau'n glir, a'u bod yn addas i'r diben heb fynd y tu hwnt i'r capasiti sy'n bodoli • Sefydlir sesiynau cadw-mewn-cysylltiad rheolaidd ar gyfer rhai sy'n gweithio o bell a gweithwyr llawrydd |
| Fframiau amser realistig | <ul style="list-style-type: none"> • Sicrheir bod fframiau amser, galluedd a chyfrifoldebau unigolion yn cael eu hasesu'n realistig ac yn gyraeddadwy • Gosodir terfynau amser 'meddal' wrth adolygu targedau a therfynau amser gan sicrhau y gellir lleddfu unrhyw gynnydd |

| | |
|--|---|
| | mewn pwysau |
| Atodiadau ynghylch Hygyrchedd a chontractiau | <ul style="list-style-type: none">• Fe hyrwyddir datblygiad Atodiadau ynghylch Hygyrchedd i'r personél ar gyfer ein holl staff, gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd. Gall hyn gwmpasu gwahanol ofynion, megis ffontiau dewisol, dogfennau hawdd i'w deall, darpariaeth BSL, cyfnodau o orffwys, alergeddau ayyb• Bydd yr Atodiadau ynghylch Hygyrchedd hyn ar gael i holl aelodau'r tîm a hefyd i sefydliadau eraill y mae TF yn gweithio gyda hwy (pan fo'n briodol) |

- Rydym wedi ymrwymo i gynnal perthynas weithio iach a diogel. I'r diben hwnnw fe fydd y sefydliad yn:

- ✓ cynnal polisi drws-agored trwy gydol y Prosiect. Rydym yn falch o drafod, clywed am eich pryderon, ac ystyried posibiladau.
- ✓ gweithio gyda gofal a charedigrwydd, gan ystyried anghenion o ran iechyd meddwl a Llesiant.
- ✓ gwneud addasiadau rhesymol i'n cynlluniau lle bo modd, gan ymrwymo i beidio â chodi rhwystrau newydd rhag mynediad rhwydd yn y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n gilydd.
- ✓ bod yn ddidwyll ac yn eglur ynghylch ein disgwyliadau a'n hymrwymadau ni.
- ✓ gwneud ein gorau glas i fodloni terfynau amser gan beidio â gosod terfynau amser afrealistig arnoch chi.
- ✓ gwrando'n ofalus ar unrhywbeth y carech chi ei gydrannu â ni a pharchu'r profiadau yr ysych chi wedi byw trwyddynt.

- Fe ymgorfforir darpariaeth ar gyfer mynediad rhwydd a'ch anghenion ym mhob contract a phob rôl, boed yn y swyddfa neu mewn rôl fwy creadigol. Bydd hon yn ddogfen hyblyg a all newid wrth i amgylchiadau neu'ch anghenion o ran mynediad newid.

- Ar gyfer anghenion cyfredol o ran mynediad a chontractiau cyfredol – fe ddefnyddir sgysiau rheolaidd ac asesiadau (gan y cyflogedig a'r cyflogwr) yn y lle cyntaf fel dull o ddiwygio'r

| | |
|---|--|
| | <p>atodiad/contract. Gellir gwneud newidiadau a diwygiadau ychwanegol yn sgil adolygiadau gyda'r rheolwr llinell a gynhelir o fewn ysbeidiau cytunedig.</p> |
| Darparu therapi llafar a phersonél cynorthwyol mewnol | <ul style="list-style-type: none">• Sicrheir bod ein darpariaeth gwnsela ar gael yn hygyrch a rhwydd ar gyfer aelodau staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr.• Nodir personél cynorthwyol mewnol a all weithredu fel 'ceidwad calon' gan gynnig cyfleoedd dal-i-fyny rheolaidd a chymorth hybu llesiant mewn ffordd gyfrinachol ac |

| | |
|--|-----------|
| | anfarnol. |
|--|-----------|

Cymeradwy-wyd gan y Bwrdd ar: 6ed
Ionawr 2023

Fe adolygir y polisi ar: 6ed Ionawr 2024